

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 9.12.20 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

### Yn dilyn canllawiau diogelwch diweddaraf Covid 19 fel y cynghorwyd gan Gyngor Gwynedd

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Jenny Warne, Glenda Edwards (Clerc), un aelod o'r gymuned Mr David Reynolds.

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11.11.20 fel rhai cywir.  
**Cynnig** – Kevin Goodchild    **Eilio** – Jenny Warne    **Arwyddwyd** – Huw Davies.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.11.20):**
  - a) **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Prosiectau Cymuned:**  
Cadarnhad wedi ei dderbyn gan I B Williams, Llanbrynmair a Madog Memorials, Porthmadog eu bod â diddordeb i wneud y gwaith ar y Cof Golofn yn Llwyngwril a'u bod yn gobeithio cyflwyno eu pris cyn y cyfarfod nesaf.
  - b) **Biniau Halen:** cadarnhad gan Gyngor Gwynedd y bydd y biniau halen yn cael eu llenwi mor fuan â phosib.
  - c) **Arwyddbost Llwybr Cyhoeddus ar waelod llwybr cyhoeddus Llwyn Du:** cadarnhad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd y bydd arwyddbost newydd yn cael ei osod ar y llwybr yma yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser maent wedi gosod arwydd gyferbyn a lle mae'r arwyddbost wedi cael ei dynnu.
  - d) **Llwybr / Ramp i lan y môr ger y Crynwyr yn Llwyngwril:** diweddariad pellach wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglyn a'r llwybr/ramp yma .....  
Mae'r twll oedd ger y ramp nawr wedi ei lenwi ac mae'r dirywiad diweddar yn arwydd fod y strwythur yn un bregus, felly mae'n amlwg mae datrysiad tymor byr yw'r gwaith cynnal sydd wedi ei wneud i'r ramp. Mae pryder y bydd yn cael ei danseilio eto ac angen ei gynnal ymhellach ac yn fwy sylweddol yn y dyfodol, ac efallai pan ddaw'r adeg honno bydd rhaid ystyried opsiynau eraill ar gyfer cynnal mynediad i'r traeth.
5. **Gohebiaeth:**
  - a) **Cyngor Gwynedd - Cytundeb Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus 2020/21** - llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau nad oes newid eleni gyda'r ymrwymiad sydd yn ei le.
  - b) **Grant Chwarae - Cyngor Gwynedd :** gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â grant sydd ar gael i wella parciau chwarae plant - angen cael y gwaith wedi ei gwblhau cyn 31.03.21.  
**Penderfyniad** → gofyn i G L Jones am bris i amnewid y matiau du diogelwch sydd o dan yr offer yn y cae chwarae yn Llwyngwril.
6. **Materion Cynllunio:**
  - a) **Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd: Ref C20/0905/01/TC – Clawdd Amddiffyn Mor - Cornel Friog**  
Tystysgrif gyfreithiol ar gyfer datblygiad arfaethedig i atal diferiad o'r morglawdd  
**Penderfyniad** → dim sylwadau i'w cyflwyno i Gyngor Gwynedd ynglyn ar y cais hwn.

**7. Adroddiad Ariannol:** Adolygiad ariannol wedi ei wneud ar gyfer gosod praesept 2021/22  
Adolygiad o'r "Taliadau Tebygol am 2021/22" wedi ei wneud.  
Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd 2020 yn gywir.  
**Cynnig** – Kevin Goodchild **Eilio** – Jenny Warne **Arwyddwyd** – Huw Davies.

**a) Praesept 2021/22**

Cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd cyn 29/01/21.

Pawb yn cytuno i gadw'r Praesept yr un fath a llynedd = **£9,800.00**.

Bydd yn cael ei dalu mewn dau randaliad o £4,900.00 ym Mis Ebrill ag Awst 2020.

**Penderfyniad** → cwblhau'r ffurflen a'i hanfon i Adran Cyllid Cyngor Gwynedd.

**b)** Siec 100793 – £216.00 → Geraint Micah → torri gwair Mynwent y Crynwyr a'r Cof Golofn yn Llwyngwrl.  
Siec 100794 - £ 95.00 → Geraint Williams (Trydanwr) → trwsio goleuadau'r Goeden Nadolig yn Llwyngwrl.

**c)** Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2021-22 = **£8.41 am bob etholwr**.

**d)** Copi o anfoneb torri gwair y llwybrau cyhoeddus wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd am ad-daliad = £200.00.

**e)** ICO wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn ein taliad o £40.00 - ffi diogelu data.  
Tystysgrif: ZA530533 (i'w hadnewyddu 28.06.21).

**f)** Archwiliad y flwyddyn yn diweddu 31.03.20 wedi ei gwblhau gan BDO ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

- Ffurflen Flynyddol wedi ei chyflwyno i aelodau'r cyngor cymuned
- Ffurflen Flynyddol wedi ei chymeradwyo a'i derbyn gan aelodau'r cyngor.
- Adroddiad Materion yn Codi wedi ei chyflwyno i'r aelodau.  
Un mater mân wedi ei nodi, ac wedi ei drafod yn y cyfarfod.
- Ffurflen Flynyddol ag "Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad" i gael eu harddangos ar hysbysfwrdd y cyngor cymuned yn Llwyngwrl, Rhoslefain ag ar wefan y cyngor cymuned am 14 diwrnod.

**8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

**9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

**a)** "The Biodiversity and Resilience of Ecosystems Duty" → Adolygiad blynyddol wedi ei wneud - dim newid.

**b)** Giât ddim yn cau yn iawn ar Lwybr Cyhoeddus Llwyd Du - Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â'r tirlfeddiannwr.

**c)** Ciosg ffôn BT ger y Cae Chwarae – adroddiad wedi ei dderbyn fod paneli ag goll ar y blwch ceblau yn y ciosg  
**Penderfyniad** → hysbysu BT a gofyn am ei sylw brys i'r mater yma.

**d)** Lloches bws, Rhoslefain - Geraint Micah wedi tacluso'r safle yma → llawer o ddiolch.

**e)** Arwyddion ar y llwybr cerdded ger y Crynwyr, Llwyngwrl - cwynion wedi eu derbyn fod cerbydau yn parcio ac yn aros dros nôs i lawr y llwybr cerdded yma - sydd yn annerbyniol, a bod angen arwyddion i atal hyn ddigwydd.  
**Penderfyniad** → cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu o hyn, a gofyn am arwyddion newydd clir i roi fyny.

**f)** Carafán yn y cae ger Llwybr y Crynwyr - Parc Cenedlaethol Eryri yn ymwybodol fod carafán ar y safle ..... ???

**g) Llwybr ger “Wendy’s” (tirfeddiannwr wedi cau’r llwybr i’r cyhoedd ers Mis Chwefror 2020)**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr aelodau i gyd wedi derbyn copiâu o'r holl wybodaeth berthnasol, gohebiaeth a dogfennau a ddaeth i law ers mis Mawrth 2020 ynghylch llwybr “Wendy’s”, yn enwedig y rhai mwyaf diweddar sef -

- dogfen gan Net Work Rail “Enhanced Level Crossing Safety 2019-29”
- copi o erthygl Mr Nick Ward oedd wedi ei gyhoeddi yn y Sibrydion

a bod aelodau'r cyngor yn ymwybodol iawn o'r ddau gwestiwn a gafodd ei ofyn gan Mr Nick Ward yng nghyfarfod Mis Medi.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r aelodau os oeddent wedi cael amser i’w darllen ag i ail ystyried y penderfyniad a wnaed ym Mis Awst. Nid oedd unrhyw un o aelodau’r cyngor cymuned a oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Rhagfyr eisiau ail-ystyried y penderfyniad a basiwyd yng nghyfarfod mis Awst; **felly, nid oedd angen trafodaeth, ac nid oedd angen gweithredu.**

**Fodd bynnag**, awgrymodd un o'r cynghorwyr mai'r ffordd orau o weithredu byddai i'r bobl a oedd am i'r llwybr gael ei gadw ar agor i'r cyhoedd oedd i gysylltu â'r tirfeddiannwr, a gaeodd y llwybr i'r cyhoedd yn ôl ym Mis Chwefror 2020.

Dywedodd aelod arall o’r cyngor cymunedol ei fod wedi siarad â pherchennog y tir, ac fe gadarnhaodd ef eu bod yn bendant na fyddent yn barod i newid y llwybr i fod yn “llwybr troed cyhoeddus”.

Gofynnodd aelod o’r gymuned a fynychodd cyfarfod Mis Rhagfyr, i’r Cadeirydd beth oedd ystyr “*dim budd i’r gymuned ehangach*”, atebodd y Cadeirydd y byddai’n beryglus i’r rhan fwyaf o drigolion y gymuned gyrraedd y llwybr yma i’w ddefnyddio.

Ailadroddodd y Cadeirydd wrth Mr D Reynolds, y gall unrhyw un wneud cais i Gyngor Gwynedd i Addasu'r Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer Gwynedd, os ydyn nhw'n teimlo'n gryf am newid statws y llwybr hwn i fod yn “llwybr troed cyhoeddus”.

**Cyfarfod nesaf :-**

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd ..... Dyddiad .....**